



## Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Digartrefedd 2018-2022

### Nodau ac Amcanion

Mae'r Strategaeth Digartrefedd yn nodi nodau ac amcanion Cyngor Abertawe a'i bartneriaid i fynd i'r afael â digartrefedd dros y pedair blynedd nesaf. Datblygwyd y cynllun i roi manylion y camau gweithredu y bydd angen i'r cyngor a'i bartneriaid eu cymryd i gyflwyno'r rhain:

#### **Nod y Strategaeth Digartrefedd:**

*"Nod Strategaeth Digartrefedd Abertawe yw sicrhau bod gan bob person fynediad at gyngor, llety a chefnogaeth dda ar y cam cynharaf posib er mwyn atal digartrefedd."*

#### **Amcanion y Strategaeth Digartrefedd:**

**Amcan 1:** Sicrhau mai defnyddwyr gwasanaeth yw'r ystyriaeth bennaf wrth gyflwyno gwasanaethau

**Amcan 2:** Blaenoriaethu ymyrryd yn gynnar ac atal digartrefedd.

**Amcan 3:** Sicrhau bod llety addas ar gael i bobl sy'n ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref

**Amcan 4:** Sicrhau bod cefnogaeth briodol ar gael i bobl sy'n ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref.

**Amcan 5:** Ymateb yn gadarn i gefnogi'r rhai sy'n cysgu allan a rhoi terfyn ar yr angen i bobl gysgu allan.

Cyf	Gweithredu Angenrheidiol	Swyddog â Chyfrifoldeb	Erbyn Pryd	Gweithgareddau Allweddol	Canlyniad
<b>Amcan 1: Sicrhau mai defnyddwyr gwasanaeth yw'r ystyriaeth bennaf wrth gyflwyno gwasanaethau.</b>					
1.1	<p>Cyflwyno ymagwedd gydgynhyrchu gyda defnyddwyr gwasanaethau i ddatblygu'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Siarter Digartrefedd</li> <li>• Safonau gwasanaeth ar gyfer Opsiynau Tai</li> <li>• Safonau ysgrifenedig ar gyfer llety dros dro a ddefnyddir gan y cyngor</li> </ul>	Rheolwr Gweithrediadau Tai Cymunedol	Rhagfyr 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sefydlu Grŵp Llywio gan ddefnyddio egwyddorion cydgynhyrchu</li> <li>• Ystyried cysylltiadau â'r Comisiwn y Gwirionedd am Dlodi</li> <li>• Gweithio gyda'r gwasanaeth ieuentid a rhanddeiliaid allweddol eraill i gynnwys barn plant a phobl ifanc sydd wedi profi digartrefedd, gan gynnwys ystyried datblygu Siarter Digartrefedd Plant a Phobl Ifanc.</li> <li>• Cyhoeddi: <ul style="list-style-type: none"> <li>➢ Y Siarter Digartrefedd</li> <li>➢ Safonau Gwasanaeth Opsiynau Tai</li> <li>➢ Safonau Llety Dros Dro</li> </ul> </li> </ul>	Caiff egwyddorion cydgynhyrchu eu cynnwys wrth lunio a chyflwyno gwasanaethau i sicrhau bod pobl â phrofiad o fod yn ddigartref yn cael eu cynnwys mewn ffordd ystyrlon wrth gynllunio gwasanaethau.
1.2	Gwella isadeiledd i ganiatáu cynhwysiad digidol yn y gwasanaeth Opsiynau Tai, yr Uned Cefnogi Tenantiaid a Swyddfeydd Tai Rhanbarthol	Uwch-weithiwr Achos/Rheolwr Gweithrediadau'r Dwyrain/Gorllewin /Cydlynnydd yr UCT	Mawrth 2020	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu mynediad at WiFi, pwyntiau gwefru ffonau a mynediad at gyfrifiaduron cyhoeddus</li> </ul>	Gwella cynhwysiad digidol pobl ddigartref.
1.3	Adolygu'r defnydd o Gynlluniau Tai Personol.	Rheolwr Opsiynau Tai	Rhagfyr 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynlluniau Tai Personol ar waith ar gyfer yr holl aelwydydd sydd mewn perygl o fod yn ddigartref</li> <li>• Darparu gwybodaeth ysgrifenedig i'r holl aelwydydd sy'n cysylltu â'r gwasanaeth</li> <li>• Dull adborth ar waith i fonitro effeithiolrwydd</li> </ul>	Gwella gwybodaeth ysgrifenedig i'r holl aelwydydd digartref.

Cyf	Gweithredu Angenrheidiol	Swyddog â Chyfrifoldeb	Erbyn Pryd	Gweithgareddau Allweddol	Canlyniad
1.4	Hyrwyddo Opsiynau Tai yn rhagweithiol mewn cyfryngau cymdeithasol ac yn y wasg	Rheolwr Opsiynau Tai	Rhagfyr 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>• 2 ddatganiad i'r wasg sy'n darparu gwybodaeth am y Gwasanaeth Digartrefedd, a gyhoeddir yn y wasg leol bob blwyddyn</li> <li>• Defnydd cynyddol o gyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gwasanaethau</li> <li>• Arolwg chwemisol i ganfod lefelau dealltwriaeth y cyhoedd cyffredinol o ddigartrefedd a'r gwasanaethau cyngor ar dai</li> </ul>	Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd a phroffesiynol o ddigartrefedd, gwasanaethau cyngor a chefnogaeth er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth ehangach o'r hyn y gall pobl ei wneud, a'r manau y gallant fynd iddynt os oes ganddynt broblem tai.
1.5	Adolygu systemau monitro cydraddoldeb Opsiynau Tai	Arweinydd Tîm Gwaith Achos a Chydlynedd yr UCT	Mehefin 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cwblhau ymgynghoriad â grwpiau cynrychioliadol cydraddoldeb ar y defnydd gorau o ddata monitro cydraddoldeb</li> <li>• Ymchwilio i arfer gorau</li> <li>• Meysydd i'w gwella wedi'u nodi</li> </ul>	Sicrhau bod gwasanaethau digartrefedd a thai yn hygyrch i bawb.
<b>Amcan 2: Blaenoriaethu ymyrryd yn gynnar ac atal digartrefedd.</b>					
2.1	Datblygu protocolau cyn troi allan gyda'r holl ddarparwyr tai a deall rhesymau dros denantiaethau a adawyd.	Rheolwr Gweithrediadau Tai Cymunedol/ Tîm Cefnogi Pobl	Mawrth 2020	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Protocolau ar waith</li> <li>• Achosion o droi allan yn cael eu monitro ar draws pob math o dai</li> </ul>	Gostyngiad yn nifer yr achosion o droi allan.
2.2	Adolygu effeithiolrwydd y protocol rhyddhau o'r ysbyty'n flynyddol.	Rheolwr Gweithrediadau Tai Cymunedol	Blynyddol - cwblhau'r adolygiad cyntaf erbyn mis Ebrill 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodi unrhyw rwystrau a mynd i'r afael â hwy er mwyn lleihau achosion o ryddhau gohiriedig</li> <li>• Mynd ati i ymgysylltu'n barhaus â'r Gwasanaeth Iechyd, y Gwasanaethau Cymdeithasol ac ADAPT</li> </ul>	Protocol rhyddhau o'r ysbyty cadarn ar waith.

Cyf	Gweithredu Angenrheidiol	Swyddog â Chyfrifoldeb	Erbyn Pryd	Gweithgareddau Allweddol	Canlyniad
2.3	Adolygu effeithiolrwydd y Llwybr Carcharorion yn flynyddol.	Rheolwr Gweithrediadau Tai Cymunedol	Blynyddol - cwblhau'r adolygiad cyntaf erbyn mis Ebrill 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyllideb Cefnogi Pobl i barhau i ariannu swydd Swyddog Digartrefedd benodol i ymdrin â cheisiadau gan gyn-droseddwyr.</li> <li>Defnydd cynyddol o dechnoleg i roi cyngor priodol i'r rhai sydd yn y ddalfa.</li> <li>Lleihau nifer y cyn-droseddwyr sy'n ddigartref pan gânt eu rhyddhau o'r carchar (targed i'w gytuno â'r Gwasanaeth Carcharau/Prawf)</li> </ul>	Llwybr Carcharorion cadarn ar waith.
2.4	Sicrhau y cyflawnir y targed ar gyfer atal digartrefedd.	Rheolwr Opsiynau Tai	Adrodd blynyddol	<ul style="list-style-type: none"> <li>% yr aelwydydd y llwyddir i'w hatal rhag dod yn ddigartref yn cyrraedd 67% neu'n rhagori ar hyn</li> </ul>	Targed wedi'i gyflawni a'i adolygu'n flynyddol.
2.5	Monitro'r defnydd o'r Gronfa Atal i sicrhau ei bod hi'n cyfrannu'n llwyddiannus at denantiaethau cynaliadwy.	Rheolwr Opsiynau Tai	Medi 2019 (yn flynyddol)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Monitro a gwerthuso cyfradd lwyddo tenantiaethau a gafwyd drwy'r Gronfa Atal ac/neu a gefnogwyd ganddi</li> </ul>	Defnyddir y Gronfa Atal Digartrefedd yn effeithiol a gall ddangos y cynhelir tenantiaethau.
2.6	Monitro rhesymau dros golli llety a rentir er mwyn deall yn well yr hyn sy'n ysgogi'r achos digartrefedd hwn.	Arweinydd Tîm Gwaith Achos	Mai 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwella dealltwriaeth o effaith diwygio lles ar gynladwyedd tenantiaethau er mwyn llywio gwaith y Grŵp Llywio Cynhwysiad Ariannol, gweler cam gweithredu 2.12.</li> <li>Monitro parhaus ar waith i ddeall a gwerthuso rhesymau eraill dros golli llety.</li> </ul>	Lleihau nifer yr achosion o droi allan o lety a rentir yn breifat.
2.7	Adolygu a gwella gwybodaeth sydd ar gael ar-lein ac yn ysgrifenedig, gan ystyried yr argymhellion a geir yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwneud defnydd gwell o wefan a chyfryngau cymdeithasol y cyngor</li> <li>Defnyddio rhestr wirio SAC i nodi opsiynau i wella sut mae'r cyngor yn rheoli'r galw am y gwasanaeth digartrefedd.</li> </ul>	Rheolwr Opsiynau Tai/ Uwch-swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid	Medi 2020	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwefan well, sy'n addas ar gyfer ffonau symudol, ar waith.</li> <li>Cwblhau rhestr wirio SAC a nodi gwelliannau i reoli'r galw'n well.</li> <li>Pwynt mynediad ar-lein haws i ddefnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol allu cyfeirio i'r UCT ac Opsiynau Tai.</li> </ul>	Lleihau'r galw ar y Gwasanaeth Digartrefedd drwy ddarparu cyngor ar-lein clir a chynhwysfawr ar dai.

Cyf	Gweithredu Angenrheidiol	Swyddog â Chyfrifoldeb	Erbyn Pryd	Gweithgareddau Allweddol	Canlyniad
2.8	Cytuno ar feini prawf er mwyn mapio faint o bobl ifanc 13 i 16 oed a allai fod mewn perygl mawr o ddigartrefedd	Rheolwr Partneriaeth BAYS+	Ebrill 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cytuno ar feini prawf.</li> <li>Cytuno â rhanddeiliaid allweddol (e.e. Evolve) ar yr hyn a gaiff ei gynnwys yn y "cynnig cefnogaeth" ar gyfer y grŵp hwn.</li> </ul>	Gwella gwasanaethau atal digartrefedd ar gyfer pobl ifanc.
2.9	Datblygu rhaglen addysg i gynyddu gwybodaeth am broblemau tai a digartrefedd mewn partneriaeth â phobl ifanc.	Rheolwr Partneriaeth BAYS+	Rhagfyr 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>BAYS yn derbyn Grant Sector Gwirfoddol i ddatblygu prosiect a'i roi ar waith rhwng mis Hydref 2018 a mis Hydref 2019</li> <li>Cwblhau gwerthusiad o'r prosiect</li> </ul>	Gwella gwasanaethau atal digartrefedd ar gyfer pobl ifanc.
2.10	Datblygu negeseuon lleol cyson, cywir a rennir ar argaeledd a fforddadwyedd tai annibynnol i bobl ifanc yn Abertawe a nodi'r dulliau cyfathrebu mwyaf effeithiol er mwyn cyrraedd: <ul style="list-style-type: none"> <li>Pobl ifanc 14 oed ac yn hŷn</li> <li>Rhieni/gofalwyr</li> <li>Galwedigaethau eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc â theuluoedd</li> </ul>	Rheolwr Ardal BAYS+	Ebrill 2020	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu deunyddiau cyfathrebu gyda phobl ifanc (gan gynnwys ystyried dulliau amgen e.e. atebion technolegol megis apiau, gwefan, cyfryngau cymdeithasol, animeiddiadau).</li> <li>Cynllun cyfathrebu ar waith i hyrwyddo negeseuon cytunedig.</li> <li>Cwblhau gwerthusiad o'r rhaglen addysg (gweler 2.9).</li> </ul>	Cyngor syml, clir ar dai ar gael i rieni/ofalwyr a phobl ifanc.
2.11	Adolygu gwasanaethau cyfryngu sydd ar gael i gynorthwyo gydag atal digartrefedd.	Arweinydd Tîm Gwaith Achos/Rheolwr Opsiynau Tai	Hydref 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cwblhau ymarfer mapio ar y ddarpariaeth gyfryngu bresennol sy'n cynnwys: sut y ceir mynediad atynt; argaeledd; trefniadau ariannu: ac ystyried arfer da mewn mannau eraill</li> <li>Monitro canlyniadau'r Prosiect Cyfryngu a ariennir drwy Grant Sector Gwirfoddol</li> </ul>	Atal digartrefedd yn fwy drwy gyfryngu.
2.12	Gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r angen cynyddol am gyngor ar fudd-daliadau lles, gwneud yn fawr o incwm, a dyledion.	Arweinydd Tîm Gwaith Achos/Rheolwr Ffyniant a Lles Oedolion/ Cydlynnydd yr UCT	Medi 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal asesiad o'r ddarpariaeth bresennol gyda'r Grŵp Llywio Cynhwysiad Ariannol i nodi'r defnydd gorau o gyllid i gynyddu darpariaeth</li> <li>Parhau i gynyddu'r defnydd o Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn</li> </ul>	Mwy o fudd-daliadau lles a chyngor ar ddyledion ar gael ynghyd â chyfleoedd i fwyafu incwm.

Cyf	Gweithredu Angenrheidiol	Swyddog â Chyfrifoldeb	Erbyn Pryd	Gweithgareddau Allweddol	Canlyniad
2.13	Datblygu cysylltiadau cryfach â'r Gwasanaeth Tlodi a'i Atal i sicrhau bod gan aelwydydd digartref fynediad at wasanaethau hyfforddiant, cyflogaeth ac addysg.	Rheolwr Gweithrediadau Tai Cymunedol/ Rheolwr Ffyniant a Lles Oedolion/ Cydlynnydd yr UCT	Rhagfyr 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nodi rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau gyda defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr cefnogaeth.</li> <li>Gweithio gyda Gweithffyrdd+ i wella mynediad.</li> </ul>	Daw aelwydydd digartref yn fwy gweithgar yn economaidd a gwydn.
2.14	Gweithio gyda'r AGPh, yr Is-adran Budd-dal Tai a'r Gwasanaeth Tlodi a'i Atal i nodi a chynghori aelwydydd sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn y dyfodol oherwydd effaith diwygio lles.	Rheolwr Ffyniant a Lles Oedolion/ Arweinydd Tîm Gwaith Achos	Rhagfyr 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynrychiolydd Opsiynau Tai ar y Grŵp Llywio Cynhwysiad Ariannol</li> <li>Nodi'r cymunedau y mae diwygio lles wedi effeithio fwyaf arnynt er mwyn clustnodi cyngor</li> </ul>	Gwella ymyrryd yn gynnar ac atal i aelwydydd y mae diwygio lles wedi effeithio arnynt.
2.15	Datblygu Rhaglen Hyfforddiant Tai i ddatblygu sgiliau gweithwyr cefnogi (a gweithwyr proffesiynol eraill) i'w galluogi i roi cyngor sylfaenol ar dai a gwella gwybodaeth am ddeddfwriaeth digartrefedd.	Rheolwr Opsiynau Tai/Swyddog Hyfforddiant Tai	Medi 2020	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cwblhau'r rhaglen beilot gyda gweithwyr y Ganolfan Cam-drin Domestig</li> <li>Asesu dichonoldeb ehangu hyfforddiant i sefydliadau eraill</li> </ul>	Lleihau'r galw ar y Gwasanaeth Digartrefedd drwy sicrhau y gall amrywiaeth ehangach o sefydliadau roi cyngor ar dai.
2.16	Archwilio ffyrdd o wella canlyniadau ar gyfer aelwydydd digartref heb unrhyw gysylltiadau lleol.	Rheolwr Gweithrediadau Tai Cymunedol	Rhagfyr 2020	<p>Cydgysylltu ag awdurdodau cyfagos i benderfynu ar ddichonoldeb datblygu grŵp rhanbarthol i ystyried y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Achosion rhyddhau o'r ysbyty</li> <li>Trefniadau cyfatebol</li> <li>Tai'n Gyntaf</li> <li>Ailgysylltu</li> <li>Llety dros dro</li> <li>Camau rhesymol</li> </ul>	Mwy o ffocws rhanbarthol ac ymagwedd gydweithredol ar gyfer yr aelwydydd digartref heb gysylltiadau lleol.

Cyf	Gweithredu Angenrheidiol	Swyddog â Chyfrifoldeb	Erbyn Pryd	Gweithgareddau Allweddol	Canlyniad
2.17	Nodi goblygiadau Deddf Mewnfudo 2014 a pharatoi ar eu cyfer e.e. gwiriadau Hawl i Rentu a Phrydain yn gadael yr UE.	Cyfreithiwr Tai	I'w drefnu	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Monitro'r dyddiad rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru</li> <li>• Nodi'r camau perthnasol y mae gofyn i landlordiaid eu cymryd i gydymffurfio.</li> </ul>	Cyngor priodol ar waith ar gyfer darparwyr tai
<b>Amcan 3: Sicrhau bod llety addas ar gael i bobl sy'n ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref.</b>					
3.1	Gweithio gyda phartneriaid LCC i amlinellu a chytuno ar ddisgwyliadau er mwyn nodi sut bydd y sector tai cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd i liniaru digartrefedd.	Rheolwr y Gwasanaethau Landlordiaid	Ebrill 2021	<p>Cwblhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygu cytundebau enwebu.</li> <li>• Adolygu Trefniadau Rheoli Tai ar gyfer Cartrefi â Chymorth.</li> <li>• Adolygu'r Strategaeth Symud Ymlaen.</li> <li>• Datblygu protocolau cyn troi allan.</li> <li>• Datblygu a monitro protocol y Lluoedd Arfog</li> </ul>	Cytundeb ysgrifenedig ar waith gyda'r holl brif LCC sy'n gweithredu yn Abertawe sy'n ymrwymo i brotocolau diwygiedig.
3.2	Sicrhau y defnyddir llety gwely a brechwast ar gyfer teuluoedd mewn argyfwng yn unig ac nid eir heibio'r targed o 6 diwrnod.	Rheolwr Opsiynau Tai	Adrodd blynyddol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Parhau i sicrhau lefelau digonol o lety dros dro a gynhelir gan y cyngor i deuluoedd.</li> </ul>	Ni ddylai'r amser cyfartalog y mae teuluoedd yn ei dreulio mewn llety gwely a brechwast fod yn fwy na 6 diwrnod.
3.3	Atal y defnydd o westai gwely a brechwast i bobl ifanc 16 ac 17 oed.	Rheolwr Partneriaeth BAYS+	Adrodd blynyddol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau bod y Gwasanaeth Digartrefedd a BAYS+ yn mynd ati i gymryd rhan yn Adolygiad o Lety Pobl Ifanc y rhaglen Cefnogi Pobl.</li> </ul>	Nid yw gwestai gwely a brechwast yn cael eu defnyddio ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed
3.4	Lleihau'r defnydd o lety dros dro ar gyfer aelwydydd digartref ag anghenion cymhleth (h.y. problemau iechyd meddwl ac anableddau dysgu, camddefnyddio sylweddau), a'r amser a dreulir ynddynt .	Rheolwr Gweithrediadau Tai Cymunedol/ Tîm Cefnogi Pobl	Ebrill 2020	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sefydlu gweithgor gyda'r gwasanaethau Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu, Iechyd a Chamddefnyddio Sylweddau.</li> <li>• Gwerthuso casgliadau'r prosiect Crisis i ddarparu cefnogaeth mewn gwestai gwely a brechwast</li> </ul>	Gwella'r canlyniadau i aelwydydd digartref ag anghenion cymhleth (e.e. iechyd meddwl, anableddau dysgu, camddefnyddio sylweddau).

Cyf	Gweithredu Angenrheidiol	Swyddog â Chyfrifoldeb	Erbyn Pryd	Gweithgareddau Allweddol	Canlyniad
3.5	Creu swydd Swyddog Porth Tai.	Rheolwr Gweithrediadau Tai Cymunedol	Mawrth 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwella cronfa ddata'r Porth Tai</li> <li>Gwell ffyrdd o gasglu data, e.e. data ar droi allan, tenantiaethau wedi'u gadael, atgyfeiriadau</li> </ul>	Un pwynt mynediad effeithiol ar gyfer pob llety â chymorth.
3.6	Gwella mynediad at lety dros dro â chymorth ar gyfer parau.	Arweinydd Tîm Gwaith Achos/Tîm Cefnogi Pobl	Rhagfyr 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nodi rhwystrau</li> <li>Trafod opsiynau â darparwyr</li> </ul>	Parau digartref yn gallu cael mynediad at lety dros dro â chymorth.
3.7	Lleihau rhwystrau rhag cael mynediad at lety dros dro a llety dros dro â chymorth.	Rheolwr Opsiynau Tai/Arweinydd Tîm Gwaith Achos	Medi 2020	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ymgynghori ymhellach â rhanddeiliaid/defnyddwyr gwasanaeth.</li> <li>Mynd i'r afael â phroblemau allweddol gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>Anifeiliaid anwes</li> <li>Storio eiddo</li> <li>Gwaith/arian</li> </ul> </li> <li>Cwblhau adolygiad a chytuno ar argymhellion.</li> </ul>	Llety dros dro a llety â chymorth yn fwy hygyrch i'r holl aelwydydd.
3.8	Symleiddio mynediad at lety lloches i aelwydydd sy'n profi cam-drin domestig.	Rheolwr Gweithrediadau Tai Cymunedol/ Cydlynnydd VAWDASV	Mawrth 2020	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cwrdd ag awdurdodau cyfagos a darparwyr i nodi problemau.</li> <li>Datblygu proses atgyfeirio gyffredin</li> </ul>	Ymagwedd "dweud unwaith" wedi'i roi ar waith i aelwydydd sy'n defnyddio llety i bobl sy'n profi cam-drin domestig.
3.9	Adolygu'r ddarpariaeth llety dros dro â chymorth dros dro i aelwydydd ag anghenion cymhleth sy'n profi cam-drin domestig a rhywiol.	Cydlynnydd VAWDASV/ Rheolwr Gweithrediadau Tai Cymunedol/ Tîm Cefnogi Pobl	Ebrill 2020	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd yr adolygiad yn ystyried: Nifer y lleoedd sydd ar gael, lefelau llety gwag, rhestr aros, lefelau troi allan.</li> </ul>	Darpariaeth ddigonol o lety dros dro â chymorth i aelwydydd ag anghenion cymhleth sy'n profi cam-drin domestig.
3.10	Adolygu'r Strategaeth Symud Ymlaen.	Rheolwr Gweithrediadau Tai Cymunedol/ Swyddog Enwebiadau	Rhagfyr 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cytuno ar ddangosydd perfformiad cynnal tenantiaeth.</li> <li>Cwblhau adolygiad o'r Strategaeth Symud Ymlaen gyda phartneriaid.</li> <li>Ystyried opsiynau i fabwysiadu proses ar gyfer pob llety dros dro.</li> </ul>	Strategaeth Symud Ymlaen gadarn ar waith.



Cyf	Gweithredu Angenrheidiol	Swyddog â Chyfrifoldeb	Erbyn Pryd	Gweithgareddau Allweddol	Canlyniad
3.11	Cynyddu'r cyflenwad o eiddo rhentu preifat fforddiadwy ac addas	Rheolwr Tîm Mynediad at y Sector Rhentu Preifat/Arweinydd Tîm - Is-adran Tai ac Iechyd Cyhoeddus	Mehefin 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ariannu 2 Swyddog Iechyd yr Amgylchedd ychwanegol i gyflymu proses gofrestru Rhentu Doeth Cymru a chynyddu nifer yr archwiliadau a gynhelir.</li> <li>Gwybodaeth wedi'i rhoi i landlordiaid rhentu preifat ar gefnogaeth a chynngor y gall y cynngor eu rhoi.</li> <li>Datblygu cysylltiadau agosach â landlordiaid rhentu preifat.</li> </ul>	Cynyddu'r cyflenwad o lety rhentu preifat fforddiadwy o safon.
3.12	Ystyried dichonoldeb sefydlu gosodiadau cymdeithasol ar gyfer eiddo'r sector preifat.	Rheolwr Tîm Mynediad at y Sector Rhentu Preifat/Rheolwr Opsiynau Tai.	Ebrill 2020	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cydgysylltu â'r Fforwm Landlordiaid Rhentu Preifat i nodi rhwystrau/problemau.</li> <li>Gwella'r cynnig/gefnogaeth i landlordiaid preifat.</li> <li>Gwneud argymhelliad ar ddichonoldeb asiantaeth gosod eiddo cymdeithasol.</li> </ul>	Cynyddu'r cyflenwad o eiddo rhentu preifat fforddiadwy o safon.
3.13	Datblygu atebion llety a rennir ar gyfer aelwydydd sengl dan 35 oed.	Rheolwr y Gwasanaethau Landlordiaid	Medi 2020	<ul style="list-style-type: none"> <li>Asesu'r angen lleol am dai a rennir ar gyfer pobl ifanc (dan 25 a dan 35 oed) a chyfeirio'r Strategaeth Mwy o Gartrefi a'r Strategaeth Tai Lleol.</li> <li>Cwrdd â LCC/rheolwyr tai cynngor i drafod datblygu tai cymdeithasol a rennir.</li> <li>Nodi arfer gorau.</li> <li>Ystyried ysgogiadau ychwanegol i landlordiaid preifat a chyfrifo cost hyn.</li> </ul>	Mwy o opsiynau tai fforddiadwy i bobl dan 35 oed.
3.14	Adolygu Polisi Dyrannu Tai'r cynngor.	Rheolwr y Gwasanaethau Landlordiaid	Rhagfyr 2021	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sefydlu Grŵp Llywio</li> <li>Nodi'r newidiadau y mae eu hangen o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, Diwygio Lles etc. o fewn 12 mis.</li> <li>Cwblhau'r adolygiad a diwygio'r polisi.</li> </ul>	Polisi dyrannu newydd ar waith.

## Amcan 4: Sicrhau bod cefnogaeth briodol ar gael i bobl sy'n ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref.

Cyf	Gweithredu Angenrheidiol	Swyddog â Chyfrifoldeb	Erbyn Pryd	Gweithgareddau Allweddol	Canlyniad
4.1	Gwella mynediad at wasanaethau cefnogi camddefnyddio sylweddau ar gyfer aelwydydd digartref.	Tîm Cefnogi Pobl/Rheolwr Gweithrediadau Tai Cymunedol	Mehefin 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal ymgynghoriad â defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr i nodi problemau</li> <li>Gweithio gyda'r Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau i wella mynediad at wasanaethau</li> <li>Gwella cysylltiadau rhwng Opsiynau Tai, yr UCT a'r Bwrdd Cynllunio Ardal</li> </ul>	Gostyngiad yn nifer yr unigolion y mae eu tenantiaethau'n methu neu sy'n cael eu hatal rhag cael mynediad at lety â chymorth oherwydd diffyg cefnogaeth briodol o ran camddefnyddio sylweddau.
4.2	Gwella mynediad aelwydydd digartref at wasanaethau cefnogi iechyd meddwl	Tîm Cefnogi Pobl/Rheolwr Gweithrediadau Tai Cymunedol	Mehefin 2020	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal ymgynghoriad â defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr i nodi problemau.</li> <li>Gweithio gyda Bwrdd Comisiynu Iechyd Meddwl y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Iechyd i wella mynediad at wasanaethau.</li> </ul>	Gostyngiad yn nifer yr unigolion y mae eu tenantiaethau'n methu neu sy'n cael eu hatal rhag cael mynediad at lety â chymorth oherwydd diffyg cefnogaeth iechyd meddwl briodol.
4.3	Rhoi casgliadau adolygiad Cefnogi Pobl o'r Uned Cefnogi Tenantiaid ar waith	Cydlynnydd yr Uned Cefnogi Tenantiaid	Medi 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>Disgwylir adolygiad Cefnogi Pobl o'r gwasanaeth yn hydref 2018.</li> <li>Diwygio ffurflenni atgyfeirio ac asesu.</li> </ul>	Mabwysiadu ymagwedd galluogi sy'n seiliedig ar gryfder at gefnogaeth.
4.4	Lleihau rhestrau aros yr Uned Cefnogi Tenantiaid ar draws yr holl grwpiau o gleientiaid.	Cydlynnydd yr Uned Cefnogi Tenantiaid	Ebrill 2020	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cadarnhau rhesymau pam y caiff aelwydydd eu cefnogi am fwy na blwyddyn ac ystyried ffyrdd o leihau hyn.</li> <li>Cynyddu'r gwasanaeth "cefnogaeth yn ôl y galw".</li> </ul>	Cyflwyno gwasanaeth cefnogi tenantiaethau hyblyg ac ymatebol i sicrhau bod pobl yn derbyn y gefnogaeth iawn ar yr adeg iawn.
4.5	Cryfhau a ffurfioli'r perthnasoedd gwaith rhwng Cydlynwyr Ardaloedd Lleol ac Opsiynau Tai/yr Uned Cefnogi Tenantiaid.	Rheolwr Gweithredu CALI/Rheolwr Opsiynau Tai/Rheolwr yr UCT	Mehefin 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sefydlu perthnasoedd gwaith da â Chydlynwyr Ardaloedd Lleol</li> <li>Monitro nifer yr achosion o gyflwyno i'r gwasanaeth CALI</li> <li>Monitro nifer yr atgyfeiriadau i Opsiynau Tai/yr UCT</li> </ul>	Lleihau'r galw ar y Gwasanaeth Digartrefedd drwy ddarparu opsiynau amgen i gefnogi aelwydydd sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.

Cyf	Gweithredu Angenrheidiol	Swyddog â Chyfrifoldeb	Erbyn Pryd	Gweithgareddau Allweddol	Canlyniad
4.6	Cynyddu ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth sydd ar gael i gefnogi dynion sy'n profi neu sydd wedi profi cam-drin domestig.	Cydlynnydd VAWDASV/ Rheolwr Opsiynau Tai	Mehfin 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Monitro lefel yr angen</li> <li>• Mapio darpariaeth</li> <li>• Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei lledaenu drwy amrywiaeth o sianeli h.y. cyfryngau cymdeithasol, gwefan, taflen wybodaeth</li> </ul>	Darpariaeth ddigonol ar gael i ddynion sy'n profi cam-drin domestig
4.7	Ymgynghori â rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaeth BME i wella'r ffyrdd y darperir gwasanaethau i aelwydydd lle ceir rhwystrau iaith a gwahaniaethau diwylliannol.	Rheolwr Opsiynau Tai/ Uwch-swyddog Polisi	Mehfin 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymgynghori â rhanddeiliaid BME</li> <li>• Nodi gwelliannau yn y gwasanaethau</li> <li>• Ymchwilio i arfer gorau</li> </ul>	Darparu gwasanaeth digartrefedd mwy hygrych.
4.8	Datblygu gwybodaeth yn benodol i ffoaduriaid er mwyn darparu cyngor penodol ar dai iddynt.	Rheolwr Opsiynau Tai	Medi 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymgynghori â rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaeth BME i nodi problemau</li> <li>• Llunio taflen a'i chyfieithu i'r ieithoedd a nodwyd, gwybodaeth hefyd ar gael ar-lein</li> <li>• Gweithio gyda darparwr llety'r Swyddfa Gartref i sicrhau y darperir gwybodaeth i geiswyr lloches ar gam cynnar.</li> </ul>	Gwell dealltwriaeth gan ffoaduriaid o sut i gael mynediad at dai.
4.9	Mapio'r ddarpariaeth sydd ar waith er mwyn cynorthwyo a chynghori unigolion nad ydynt yn gymwys am gymorth digartrefedd a thai.	Rheolwr Gweithrediadau Tai Cymunedol/ Cydlynnydd Mudo, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid	Hydref 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Fforwm Amlasiantaeth Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid i nodi problemau.</li> <li>• Archwilio enghreifftiau o arfer da mewn mannau eraill</li> <li>• Mapio'r ddarpariaeth bresennol.</li> </ul>	Dealltwriaeth glir o'r adnoddau sydd ar gael i gynorthwyo aelwydydd nad ydynt yn gymwys a gwell cyfeirio iddynt.
4.10	Diweddarau a gwella'r Cyfeiriadur Cartrefi â Chymorth ar-lein.	Tîm Cefnogi Pobl	Ebrill 2020	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoi system ar waith i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei diweddarau'n rheolaidd</li> </ul>	Cyfeiriadur ar-lein wedi'i ddiweddarau a'i fonitro, yn cael ei hyrwyddo ac yn hygrych i bob rhanddeiliad.

Cyf	Gweithredu Angenrheidiol	Swyddog â Chyfrifoldeb	Erbyn Pryd	Gweithgareddau Allweddol	Canlyniad
4.11	Datblygu cynllun hyfforddiant ar gyfer darparwyr tai a chefnogaeth.	Rheolwr Gweithrediadau Tai Cymunedol/ Swyddog Hyfforddiant Tai	Rhagfyr 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd y meysydd hyfforddiant allweddol yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>➢ Cam-drin Domestig</li> <li>➢ Hyfforddiant iechyd meddwl</li> <li>➢ Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod ac Amgylcheddau Seicolegol Wybodus (PIE)</li> <li>➢ Deddfwriaeth tai/digartrefedd</li> <li>➢ Ymwybyddiaeth o gamddefnyddio sylweddau</li> <li>➢ Aelwydydd na allant gael arian cyhoeddus.</li> <li>➢ Diweddariadau diwygio lles</li> </ul> </li> <li>• Nodi ffynonellau hyfforddiant</li> <li>• Cynllun hyfforddiant yn cael ei ddsbarthu i randdeiliad perthnasol.</li> <li>• Rhoi cynllun hyfforddiant ar waith ar gyfer staff Opsiynau Tai.</li> </ul>	Darparwyr tai a chefnogaeth yn derbyn hyfforddiant priodol ac mae ganddynt ddigon o adnoddau i ddarparu cyngor priodol yn ôl anghenion unigolion.
4.12	Datblygu swydd Swyddog Llety Trosiannol	Rheolwr Opsiynau Tai/Cydlynedd yr UCT	Mawrth 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cydgysylltu â'r UCT i sicrhau y trosglwyddir cefnogaeth yn llyfn.</li> <li>• Datblygu proses atgyfeirio i nodi'r aelwydydd hynny y mae angen gwasanaeth trosiannol arnynt.</li> <li>• Mesurau ar waith i gynnal tenantiaethau.</li> </ul>	Gwasanaeth cyn-denantiaeth a chefnogaeth drosiannol yn weithredol.
4.13	Nodi a monitro nifer y ceisiadau digartrefedd mynych a nifer y ceisiadau mynych am gefnogaeth.	Rheolwr Opsiynau Tai/Cydlynedd yr UCT	Mawrth 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygu ceisiadau digartrefedd a nodi achosion mynych yn ystod 2017/18</li> <li>• Adolygu achosion lle rhoddwyd cefnogaeth gan yr UCT a nodi ceisiadau mynych am gefnogaeth yn ystod 2017/18</li> </ul>	Lleihau nifer y ceisiadau digartrefedd mynych. Lleihau nifer yr achosion lle rhoddir cefnogaeth dro ar ôl tro.

## Amcan 5: Ymateb yn gadarn i gefnogi'r rhai sy'n cysgu allan a rhoi terfyn ar yr angen i bobl gysgu allan.

<b>5.1</b>	Cynnal astudiaeth dichonoldeb i ystyried datblygu canolfan atebion cyfannol ar gyfer gwasanaethau i bobl sy'n cysgu allan.	Rheolwr y Gwasanaethau Landlordiaid	Mehfin 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cwblhau astudiaeth dichonoldeb</li> <li>• Asesu opsiynau</li> <li>• Adrodd i Aelod y Cabinet er mwyn cytuno ar ffordd ymlaen ac amserlen i ddatblygu gwasanaethau yn y dyfodol</li> </ul>	Gwell cyfleusterau i'r rhai sydd mewn perygl o golli'u cartrefi a'r rhai sy'n cysgu allan.
<b>5.2</b>	Datblygu ymagwedd Tai'n Gyntaf er mwyn ymdrin ag anghenion tai a chefnogaeth pobl ddigartref a phobl sy'n cysgu allan â'r anghenion mwyaf cymhleth.	Rheolwr Gweithrediadau Tai Cymunedol/ Tîm Cefnogi Pobl	Ebrill 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal ymarfer tendro</li> <li>• Prosiect Tai'n Gyntaf ar waith i gefnogi tua 15 o bobl y flwyddyn</li> </ul>	Lleihau lefelau cysgu allan yn Abertawe.
<b>5.3</b>	Cynyddu'r ddarpariaeth gwelyau argyfwng a sicrhau y darperir cefnogaeth a chyingor i bobl sy'n cysgu allan o fewn 48 awr.	Rheolwr Gweithrediadau Tai Cymunedol	Rhagfyr 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Tîm Ymyriad Cysgu Allan cadarn yn ei le ac yn darparu cefnogaeth 7 niwrnod yr wythnos</li> <li>• Sicrhau mwy o welyau argyfwng</li> <li>• Gwella'r cysylltiad rhwng gwelyau sydd ar gael mewn argyfwng a phrosiectau tai â chymorth (Swydd Swyddog Porth)</li> </ul>	Lleihau lefelau cysgu allan yn Abertawe.
<b>5.4</b>	Gweithio gydag aelodau Cymuned Cyfamod y Lluoedd Arfog i sicrhau bod cyn-filwyr yn derbyn yr amrediad llawn o gyngor a chymorth i liniaru digartrefedd a phroblemau tai eraill.	Rheolwr Gweithrediadau Tai Cymunedol	Rhagfyr 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Monitro'n flynyddol nifer y cyn-filwyr sy'n ddigartref</li> <li>• Cylchredeg gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael i aelodau Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog</li> </ul>	Protocol diogelwch cadarn ar waith i bobl sy'n cysgu allan.
<b>5.5</b>	Datblygu ymagwedd amlasiantaeth at ddigwyddiadau difrifol sy'n gysylltiedig â phobl sy'n cysgu allan a grwpiau diamddiffyn eraill	Rheolwr Gweithrediadau Tai Cymunedol	Mehfin 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytundeb ar yr ymagwedd gan bartneriaid perthnasol</li> <li>• Dysgu gwersi a nodi gwelliannau i wasanaethau ar draws yr holl asiantaethau/sefydliadau</li> </ul>	Protocol diogelwch cadarn ar waith i bobl sy'n cysgu allan.

Cyf	Gweithredu Angenrheidiol	Swyddog â Chyfrifoldeb	Erbyn Pryd	Gweithgareddau Allweddol	Canlyniad
5.6	Cynnal adolygiad blynyddol o'r Cynllun Tywydd Oer.	Rheolwr Opsiynau Tai	Medi 2019 (yn flynyddol)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cwblhau adolygiad blynyddol</li> <li>Nodi gwelliannau perthnasol a'u rhoi ar waith</li> </ul>	Cynllun tywydd oer cadarn ar waith sy'n cynnig dulliau priodol o ddiogelu pobl sy'n cysgu allan, ac sy'n mynd ati'n rhagweithiol i'w helpu i gael mynediad at dai a chefnogaeth fwy addas.
5.7	Datblygu gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd a chynghorwyr yr awdurdod lleol am y gefnogaeth sydd ar gael i gynorthwyo pobl sy'n cysgu allan.	Rheolwr Gweithrediadau Tai Cymunedol	Hydref 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ymgynghori â phartneriaid</li> <li>Datblygu gwybodaeth drwy amrywiaeth o fformatau</li> <li>Hyrwyddo a rhaeadru gwybodaeth</li> </ul>	Mwy o ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i bobl sy'n cysgu allan.
5.8	Datblygu system fonitro i gofnodi anghenion cefnogaeth a hanes tai pobl sy'n cysgu allan er mwyn cyfeirio'n gywir y gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol.	Rheolwr Opsiynau Tai/Arweinydd Tîm Gwaith Achos	Rhagfyr 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rhoi Rhwydwaith Gwybodaeth Digartrefedd ar y Stryd (SHIN) (Llywodraeth Cymru) ar waith</li> <li>Cynrychiolydd o'r cyngor ar y grŵp datblygu cenedlaethol.</li> </ul>	Gwell gwybodaeth am anghenion pobl sy'n cysgu allan i nodi ymyriadau effeithiol.
5.9	Gweithio gyda HHAUGAP (Cynllun Gweithredu Iechyd Pobl Ddigartref a Grwpiau Agored i Niwed) i sicrhau y rhoddir Safonau Iechyd Llywodraeth Cymru ar gyfer Pobl Ddigartref a Grwpiau sy'n Agored i Niwed ar waith.	Uwch-weithiwr Achos	Rhagfyr 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynrychiolwyr digartrefedd/tai ar Grŵp HHAUGAP yn parhau</li> <li>Cefnogi rhoi argymhellion y cynllun gweithredu ar waith</li> </ul>	Gwell canlyniadau iechyd i bobl sy'n cysgu allan a grwpiau diamddiffyn eraill.
5.10	Gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol/PABM, adolygu'r angen i bobl sy'n cysgu allan ac aelwydydd diamddiffyn gael gwell mynediad at wasanaethau iechyd gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl.	Rheolwr Gweithrediadau Tai Cymunedol	Rhagfyr 2020	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr</li> <li>Cynnal trafodaethau â'r Gwasanaeth Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol</li> <li>Archwilio'r syniad o gyflwyno ymagweddau lle ceir ymwybyddiaeth o drawma (e.e. Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentynod ac Amgylcheddau Seicolegol Wybodus)</li> </ul>	Gwell mynediad at wasanaethau iechyd

Cyf	Gweithredu Angenrheidiol	Swyddog â Chyfrifoldeb	Erbyn Pryd	Gweithgareddau Allweddol	Canlyniad
5.11	Cynnal ymchwil ansoddol leol gyda phobl a arferai gysgu allan i nodi'r ffactorau allweddol a oedd wedi'u helpu i gael a chynnal cartref parhaol.	Rheolwr Gweithrediadau Tai Cymunedol	Rhagfyr 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth</li> <li>• Cwblhau adroddiad ymchwil</li> </ul>	Gwell gwybodaeth am anghenion pobl sy'n cysgu allan i nodi ymyriadau effeithiol.